

# Sut rydyn ni'n cael ein dylanwadu?

Mae'r gweithgaredd hwn yn cysylltu â'r Banciau Gwybodaeth canlynol:

- Deall gemau cyfrifiadurol a gamblo
- Risgiau a niwed gemau a gamblo
- Cefnogi pobl ifanc a theuluoedd sy'n dioddef niwed gamblo

**Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu dysgwyr i ddeall y technegau a ddefnyddir gan hysbysebwr i hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau gamblo. Mae'n darparu gwybodaeth a fydd yn galluogi athrawon i gynhyrchu eu gweithgareddau eu hunain gyda'u dysgwyr.**

## Disgrifiadau Dysgu Iechyd a Lles Posibl:

**Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.**

### Cam cynnydd 1

Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar Beth rwy'n ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.

### Cam cynnydd 2

Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar yr hyn rwy'n ei wybod.

### Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau ystyriol yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys profiadau'r gorffennol.

### Cam cynnydd 4

Rwy'n gallu ymchwilio, archwilio a gwerthuso ystod o dystiolaeth Er mwyn gwneud penderfyniadau ystyriol a gwybodus.

## Diffiniad o ddylanwad:

- ***'Y gallu i gael effaith ar gymeriad, datblygiad neu ymddygiad rhywun neu rywbeth, neu'r effaith ei hun'***
- Gall bron unrhyw beth ddylanwadu ar eich proses gwneud penderfyniadau, ymddygiad a gwerthoedd ond po fwyaf y byddwn yn dod i gysylltiad â rhywbeth, po fwyaf normal y gall ymddangos. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n cael eich dylanwadu i wisgo mathau penodol o ddillad, i wrando ar gerddoriaeth benodol neu hyd yn oed i yfed diodydd penodol.
- **Ystyriwch sut rydych chi'n cael eich dylanwadu gan eich ffrindiau, teulu, cyfryngau cymdeithasol, cerddoriaeth, riliau ffilm a hysbysebion.**

# Hanes hysbysebion gamblo

- Mae hysbysebion gamblo yn y DU wedi esblygu ochr yn ochr â newid cyfreithiau, technoleg ac agweddau cymdeithasol.
- O fetio cynnar ar rasys ceffylau i gamblo ar-lein modern, mae rheoliadau wedi tynhau trwy ddeddfau fel Deddf Hapchwarae 1845, Deddf Betio, Hapchwarae a Loteriau 1963 a Deddf Hapchwarae 2005, a greodd Gomisiwn Hapchwarae'r DU.
- Mae ymgyrchoedd fel **“Pan fydd yr hwyl yn dod i ben, stopiwch”** a **“Cymerwch Amser i Feddwl”** yn ceisio annog chwarae mwy diogel, ond maen nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar ddweud wrth unigolion am fod yn ofalus . Gall hyn ei gwneud hi'n ymddangos fel pe bai niwed yn ymwneud â dewisiadau personol yn unig, pan mewn gwirionedd **mae'r ffordd y mae cwmnïau gamblo yn dylunio eu gemau a'u hysbysebion hefyd yn chwarae rhan fawr** . Dyna pam mae llawer o bobl yn dal i bwysu am **reolau cryfach i amddiffyn pobl ifanc**.

# Hanes hysbysebu gamblo

Yn hanesyddol, mae gamblo wedi cael ei hysbysebu fel *rhywbeth hwyliog, hudolus a di-risg*.

Mae hysbysebion gamblo yn aml yn cyflwyno betio fel rhywbeth cyffrous, cymdeithasol a rhan o ffordd o fyw lwyddiannus



Mae marchnata gamblo yn aml yn cysylltu betio â chwaraeon, cyfeillgarwch a llwyddiant



**Pam gwahardd hysbysebu ar fyrddau hysbysebu?**

# Marchnata a Dylanwad y Diwydiant

Mae gan y diwydiant gamblo hanes hir o dargedu pobl ifanc.

- Yn y gorffennol, roedd marchnata'n cysylltu gamblo â chyffro, llwyddiant a statws cymdeithasol.
- Heddiw, mae cwmnïau'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, marchnata dylanwadwyr, nawdd a hysbysebu yn y gemau i apelio at bobl ifanc ac oedolion ifanc.
- Mae marchnata'n manteisio ar ddylanwad cyfoedion, chwilfrydedd a theyrngarwch i frand, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn dechrau gamblo neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg i gamblo (e.e. blychau ysbail, apiau betio).
- Mae ymwybyddiaeth o'r tactegau hyn yn dangos nad dewis personol yn unig yw niwed - mae buddiannau masnachol yn llunio ymddygiad yn weithredol.

**Pam ei bod hi'n bwysig bod yn ymwybodol o'r tactegau hysbysebu a ddefnyddir gan y diwydiant gamblo?**

# Atal hysbysebu gamblo a niwed

2005

**Deddf Gamblo -**  
Cyfyngiadau oedran wedi'u cyflwyno (18+)  
Hysbysebu wedi'i ganiatáu ond wedi'i reoleiddio

2019

Dim hysbysebion gamblo yn cael eu darlledu cyn 9pm yn ystod chwaraeon byw



2014

**Rheoleiddio Gamblo o Bell -**

Mae angen trwydded yn y DU ar weithredwyr ar-lein  
Mesurau diogelu defnyddwyr wedi'u cryfhau

2020 - 2023

**Diogelwch Cryfach a Gwiriadau Fforddiadwyedd**



# Sut mae cwmnïau gamblo'n hysbysebu eu cynhyrchion?



**Anaml y mae marchnata gamblo yn "hysbyseb" yn unig – mae'n aml wedi'i fewnosod mewn manau chwaraeon, adloniant a digidol.**

- Nawdd chwaraeon (h.y. cysau pêl-droed)
- Hysbysebu Teledu a Ffrydio
- Cyfryngau Cymdeithasol a Dylanwadwyr
- Integreiddio i mewn i Gemau



# Trafodwch y delweddau canlynol

## **Beth ydych chi'n sylwi arno gyntaf pan fydd hysbyseb neu naidlen yn ymddangos?**

- Beth mae'r nodweddion dylunio hyn yn gwneud i chi eisiau ei wneud?

## **Pam wyt ti'n meddwl bod y gêm eisiau i ti glicio neu wario rhywbeth?**

- Pa opsiynau mae'r sgrin yn eu rhoi i chi - a pha rai sy'n sefyll allan fwyaf?

## **Beth allai rhywun obeithio fydd yn digwydd os ydyn nhw'n clicio arno?**


- Beth ydych chi'n meddwl bod y gêm eisiau i chwaraewyr gredu fydd yn digwydd os ydyn nhw'n clicio?

## **Sut ydych chi'n penderfynu a yw rhywbeth mewn gêm yn werth talu amdano?**

- Pa mor hawdd yw gweld faint mae'n ei gostio mewn gwirionedd?

## **Gyda phwy allech chi siarad os yw rhywbeth mewn gêm yn teimlo'n ddrislyd neu'n ormodol?**

- Pryd fyddai'n amser da i ofyn am help?



- Sut mae llwyfannau gemau a gamblo wedi'u cynllunio?
- Sut mae gwefannau, apiau a hysbysebion gemau a gamblo wedi'u cynllunio?
- Pam ydych chi'n meddwl bod goleuadau llachar, lliwiau beiddgar, animeiddiadau, effeithiau sain a thestun mawr yn cael eu defnyddio?
- Pam ydych chi'n meddwl bod bonysau, gwobrau, troelliadau am ddim, blychau ysbail a chynigion arbennig yn cael eu hysbysebu'n helaeth?
- A yw negeseuon rhybuddio am gaethiwed a niwed ariannol yn cael eu harddangos yn glir?



## Pethau i'w hystyried:

- Byddwch yn ymwybodol o bwy a beth sy'n dylanwadu arnoch chi
- Meddyliwch yn feirniadol am ffynhonnell y wybodaeth a'u cymhellion
- Gofyn cwestiynau
- Adeiladu eich dealltwriaeth eich hun drwy archwilio'r ffeithiau
- Gwnewch benderfyniadau yn seiliedig ar eich credoau eich hun ac nid credoau pobl eraill

# Awgrymiadau dysgu posibl pellach

**Mae dadansoddi hysbysebion** yn helpu dysgwyr i feddwl yn feirniadol am sut mae gamblo yn cael ei farchnata ar draws gwahanol gyfryngau, sut mae technegau perswadiol yn cael eu defnyddio a pha negeseuon mae'r hysbysebion hyn yn eu creu am gamblo a'i risgiau.

Mae dysgwyr yn archwilio hysbysebion gamblo teledu (clipiau fideo) a hysbysebion gamblo printiedig.

Wrth iddyn nhw wyllo ac arsylwi, maen nhw'n gwneud nodiadau ar dechnegau perswadiol:

- Cymeradwyaeth gan enwogion neu ddylanwadwyr
- Cynigion "bet am ddim" neu "di-risg"
- Lliwiau llachar, cerddoriaeth fywiog, delweddau cyflym
- Yn dangos enillwyr, nid collwyr
- Iaith frys ("Betiwch nawr!")
- Gwneud i gamblo edrych yn normal, yn hwyl neu'n hudolus

Mae dysgwyr yn cymharu'r hysbysebion teledu a'r hysbysebion print ac yn trafod:

- Pwy yw'r gynulleidfa darged
- Pa dechnegau perswadiol sy'n cael eu defnyddio
- Pa neges mae'r hysbyseb yn ei hanfon am gamblo
- Pa wybodaeth sydd ar goll neu wedi'i chuddio
- Sut y gallai person ifanc ei ddehongli

Trafodaeth grŵp

- Pa hysbyseb oedd yn teimlo fwyaf perswadiol
- Pa dechnegau a ymddangosodd amlaf
- Sut roedd hysbysebion yn gwneud i gamblo edrych yn hwyl neu'n ddiniwed
- Pam y gallai hyn effeithio ar bobl ifanc yn fwy nag oedolion
- Pa risgiau a gafodd eu hepgor o'r hysbysebion

Ail-ysgrifennwch y Neges

Dewiswch un hysbyseb a chreu fersiwn fwy gonest drwy:

Ailgynllunio'r poster

Newid y slogan

Ychwanegu label rhybuddio

Ysgrifennu sgript hysbyseb fer "wir"

# Gwasanaethau Cymorth Gamblo yng Nghymru

- **Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cymru Gyfan a Llinell Gymorth 24/7 0808 281 9265**  
Croesewir atgyfeiriadau gan unrhyw unigolyn neu weithwyr proffesiynol i'r Gwasanaeth Triniaeth.  
E-bost: [gamblingservice@wales.nhs.uk](mailto:gamblingservice@wales.nhs.uk)
- **Gamble Aware**  
[www.gambleaware.org](http://www.gambleaware.org)
- **Canolfan Genedlaethol y GIG ar gyfer Anhwylderau Hapchwarae (Llundain)**  
Triniaeth arbenigol ar gyfer anhwylder hapchwarae i'r rhai 13 oed a hŷn. Mynediad ar-lein o Gymru.  
[www.cnwl.nhs.uk/canolfan-genedlaethol-anhwylderau-gaming](http://www.cnwl.nhs.uk/canolfan-genedlaethol-anhwylderau-gaming)

\*Sylwch y gallai'r gwasanaethau cymorth a restrir newid wrth i drefniadau comisiynu gael eu diweddaru.